*Cyngor Cymuned Llanllwchaearn Community Council*
*Haulfan, Llanarth, Ceredigion. SA47 0NH*
*Clerc/Clerk: Shan Gwyn Phone/Ffon: 01545 580818*

**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 13.05.21 - drwy 'Zoom'**

**Yn Bresennol**
Y Cynghorwyr Gill Hearne, Meleri Richards, Gareth Ioan, ,Dai Morgan, Euros Lloyd, Gareth Lloyd, Sioned Davies a'r clerc.

**Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwr Silyn Roberts.

**Ethol Swyddogion**
Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer y flwyddyn:-

Cadeirydd – Cyng Meleri Richards
Is-gadeirydd – Cyng Dai Morgan

**Cofnodion**
Cynigiwyd cofnodion mis Ebrill yn gywir gan y Cyng Gill Hearne ac ategwyd hyn gan y Cyng Gareth Ioan.

**Materion yn Codi o'r Cofnodion**
*Cynllun mesur cyflymdra traffig* Dim diweddariad pellach ar hyn o bryd. Mi fydd y clerc yn dilyn i fyny ein cais am Swyddog o'r Cyngor Sir i fynychu cyfarfod i drafod posibilrwydd o osod pafin ym Mhentre'r Bryn.

*Coed ger y man chwarae* Mae'r Cyng Gareth Ioan wedi gadael neges gyda Dylan Jones gyda chais pellach ynglyn â thorri'r clawdd ger Bro Hafan. Mi fydd y Cyng hefyd yn trefnu i'r goeden sydd wedi pydru cael ei thorri.
Mae'r Cyng Dai Morgan wedi ymweld a'r man chwarae yn sgil y cwyn a dderbyniwyd ynglyn â chyflwr y cyfarpar chwarae. Mae pren y 'Swings' wedi pydru. Felly nid oes modd eu defnyddio. Mi fydd angen cysylltu gyda'r cwmni er mwyn prynu coed newydd. Mae'r clerc wedi derbyn amcan bris o £175 oddi wrth gwmni 'West Coast Cleaning' am lanhau llawr y man chwarae. Penderfynwyd y dylid trwsio'r cyfarpar gyntaf cyn bwrw ymlaen gyda'r glanhau.

*Sedd Gymunedol* Mae'r Cyng Dai Morgan wedi mynd a'r sedd o'r safle ger Bro Hafan. Mae angen coed newydd ar y sedd ac mae'r Cynghorydd yn fodlon trwsio'r sedd. Cafwyd trafodaeth ynglyn a'r posibilrwydd o'i osod ger cysgodfan bws MaenyGroes yn hytrach nag ar y tro ger Bro Hafan.

*Swydd y Clerc* Mae Sioned Davies wedi derbyn y swydd o Glerc a Swyddog Cyfrifoldeb Ariannol i'r Cyngor Cymuned. Estynnwyd croeso i Sioned i'r cyfarfod a dymunwyd pob llwyddiant iddi yn ei swydd newydd.
Estynnwyd gwerthfawrogiad i Shân wrth iddi ddiweddu fel clerc. Diolchwyd iddi am ei ymroddiad dros y ddeunaw blynedd. Wnaeth Shân hefyd ddiolch i bawb am eu cymorth a'u cydweithrediad dros y blynyddoedd ynghyd a diolch am haelioni'r Cynghorwyr gyda'r anrhegion y mae wedi derbyn.

*Golau Cymunedol ger rhwng Pencnwc Isaf a Parc yr Efail* Yr ydym dal yn aros am ddyddiad ar gyfer gosod y golau. Mi fydd y clerc yn dilyn y mater yma i fyny.

*Llwybr Cyhoeddus Penlon – Blaenrhyd* Mae'r Cyng Gareth Ioan wedi cerdded y llwybr. Mae coeden wedi cwympo ond mae modd defnyddio'r llwybr. Mi fydd yn trefnu i glirio'r goeden yn fuan.

**Adroddiad Ariannol**
Derbyniwyd adroddiad ariannol mis Ebrill yn gywir a rhoddwyd caniatád i dalu'r canlynol:-

Tindle Newspapers Wales & The Borders - £61.20
Shân Gwyn - £416.00
Yswiriant BHIB - £1,092.76

Sefydlwyd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn yma – penderfynwyd gadael yr un fath ag y llynedd.

Derbyniwyd cyfrifon y flwyddyn yn diweddu 31.3.21 yn gywir. Mi fydd y clerc yn eu cyflwyno i Mr Iori Evans ar gyfer eu harchwilio.

**Gohebiaeth**
*Cyngor Tref Nefyn* Derbyniwyd gwahoddiad i'r Cynghorwyr ymuno a chyfarfod rhithiol ar Fai 27ain gyda'r bwriad o gynghreirio Cynghorau Sir, Tref a Chymuned, Cynghorwyr ag Aelodau Seneddol er mwyn pwyso ar Lywodraeth Cymru i weithredu mesurau i reoli pryniannau ail gartrefi. Mi fydd y clerc yn dosbarthu manylion y cyfarfod.

*CSC – Praesept* Derbyniwyd llythyr yn cadarnhau y bydd y praesept yn cael ei dalu mewn tri rhan daliad o £3,000. Mae'r taliad cyntaf wedi ei wneud ar y 30.4.21 ac mi fydd yna daliadau pellach ar y 31.7.21 a 31.10.21.

*'Heathly Work Places & Civility in Public Life'* Cynhelir cyfarfod rhithiol ar y cyd gydag Un Llais Cymru, SLCC, NALC a Chymdeithas Llywodraeth Lleol ar ddydd Llun 24.5.21 rhwng 11:00 a 12:00. Mi fydd y clerc yn danfon y manylion 'Zoom'.

**Ceisiadau Cynllunio**
A200660 Parc y Pant, Cei Newydd – codi dau annedd. Nodwyd fod yr ymgeisydd wedi cyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad y Cyngor Sir i wrthod y cais cynllunio yma.